

Natur Yn Sir Gaerfyrddin

...ein dull o weithredu'n lleol 2020–2030

RHAN 2

Sut gallwch chi helpu - syniadau i
weithredu arnynt

Mai 2020

Partneriaeth Natur
SIR GÂR • CARMARTHENSHIRE
Nature Partnership





B. Langridge

2.1 Beth allwch chi ei wneud?

Mae gwaith y partneriaid, a'r prosiectau y maen nhw'n ymgymryd â nhw, yn helpu i warchod a gwella ein hamgylchedd naturiol ac yn aml yn cyflwyno sawl mantais sy'n gwella lles y bobl sy'n byw yma ac yn cyfrannu at economi'r sir.

Os ydyn ni o ddifrif ynghylch adfer natur, mae angen i bob un ohonom weithredu ac i sefydiadau ac unigolion gydweithio mewn partneriaeth – gan gynnwys tîrffeddiawyr, asiantaethau'r llywodraeth, grwpiau cadwraeth bywyd gwyllt, awdurdodau lleol a diwydiant.

Gall pobl leol, cymunedau ac ysgolion wneud gwahaniaeth hefyd a rôl yr holl bartneriaid yw codi ymwybyddiaeth a gweithio gyda chymunedau ar brosiectau sydd o fantais i fioamrywiaeth – a'r bobl sydd ynghlwm â gweithredu lleol.

Yn y rhan hon, darparwn ystod gryno o syniadau i fusnesau, cymunedau, ysgolion ac unigolion er mwyn cymryd camau lleol cadarnhaol yn Sir Gaerfyrddin, gyda chysylltiadau â'r myrdd o wybodaeth ddefnyddiol sydd ar gael ar y rhyngwyd heddiw.

2.2 Busnesau

Yn Sir Gaerfyrddin, mae busnes yn ymestyn o weithrediadau ar raddfa fawr yng ngwaith dur Trostre i fentrau ar raddfa fach sy'n gweithredu o weithdai, parciau busnes a chartrefi



I. Morgan

a'r tir o'u cwmpas. Crynhoir y rhan fwyaf o'r rhain yn aml mewn ardaloedd adeiledig ond gallant fod ar ymylon aneddiadau gyda chysylltiadau â chefn gwlad ehangach. Mae cyfleoedd i bob busnes gymryd camau cadarnhaol at fioamrywiaeth, boed fel rhan o ddatblygiad safleoedd newydd neu reoli'r rhai presennol, penderfyniadau caffael a chodi ymwybyddiaeth ymhlith staff, p'un a ydy'r busnesau'n cyflogi cannoedd neu ddegau o bobl neu'n cael eu rhedeg gan un unigolyn.



I. Morgan

2.3 Cymunedau

Gall lle gwyrdd o ansawdd da effeithio ar y ffordd y mae pobl yn meddwl, yn teimlo ac yn ymddwyn – gall gynyddu hamdden corfforol a galluogi pobl i ryngweithio gyda natur. Gall gweithredu cymunedol er lles bywyd gwyllt helpu ystod o rywogaethau a chynefinoedd ond mae modd iddo hefyd wella ardaloedd er mwyn darparu lle gwyrdd ansawdd uwch i bobl leol fwynhau a dysgu am y byd naturiol.

Efallai mai dim ond ar raddfa fach (ond sy'n dal i fod yn bwysig) yw'r gweithredu - mae grŵp bach o wirfoddolwyr yn helpu i gynnal a gwella'r ardal o gwmpas Pwll Dafen yn Llanelli, gan godi sbwriel, cofnodi bywyd gwyllt a helpu gyda rheolaeth. Ar raddfa fwy o faint, mae grŵp cymunedol wedi'i greu'n ffurfiol yn Nhalylychau ac mae bellach yn ymgymryd â phrosiect cyllid grant ar raddfa fawr i reoli ardaloedd helaeth o dir o gwmpas y pentref, er lles y bobl leol a bywyd gwyllt.



2.4 Ysgolion

Gellir meithrin dealltwriaeth a pharch at natur ymhlith plant yn gynnar iawn. Mae bioamrywiaeth yn gydran hanfodol o addysg yr amgylchedd a gellir ei chysylltu â'r cwricwlwm cenedlaethol mewn sawl ffordd wahanol.

- Gallai cwblhau archwiliad bioamrywiaeth ddatblygu sgiliau mapio mewn daearyddiaeth a sgiliau dadansoddi data mewn mathemateg. Cofiwch gynnwys bioamrywiaeth yng nghwricwla'r ysgolion, gan fod cysylltiadau clir â gwyddoniaeth, mathemateg a daearyddiaeth, yn ogystal â dinasyyddiaeth, celf a Chymraeg a Saesneg.
- Erbyn hyn, mae'r rhan fwyaf o ysgolion Sir Gaerfyrddin yn Eco-ysgolion, sydd â chynllun gweithredu bioamrywiaeth yn rhan

o'u hasesiad. Mae ysgolion lleol yn ymweld â gwarchodfeydd natur lleol yn y Bynea a Brynman Uchaf a Phen-bre.

- Rheoli ac/neu greu lle i fywyd gwyllt ar dir eich ysgol. Mae gan Ysgol Tre Ioan gynllun rheoli syml ar gyfer eu lle awyr agored.
- Ystyriwch ddefnyddio diwrnod HMS er mwyn rhoi hyfforddiant ar addysg bioamrywiaeth - rhoddwyd diwrnod HMS i ysgolion yn y gorffennol at ddibenion rheoli tir ar gyfer bioamrywiaeth.
- Defnyddiwch yr ystafell ddosbarth i ddangos arfer da i'r amgylchedd: ailgylchu gwastraff a defnyddio dŵr ac ynni'n ddoeth.



L. Morgan

2.5 Unigolion

Gall pawb wneud rhywbeth i helpu bioamrywiaeth - gall camau bach gyfrannu at wneud gwahaniaeth mawr. Gallai effeithiau llesol cymryd camau gweithredu fod er lles natur a chithau fel ei gilydd. Gallai camau cadarnhaol gynnwys:

- gwirfoddoli gyda grŵp cadwraeth lleol,
- gardd i fywyd gwyllt,
- meddwl am eich defnydd o gemegion yn y cartref a'r ardd,
- arbed-aildefnyddio-aailgylchu,

- cofnodi'ch bywyd gwyllt lleol ac anfon cofnodion at y ganolfan cofnodion biolegol lleol - mae pob cofnod yn helpu i adeiladu llun o ble mae bywyd gwyllt yn byw yn y sir,
- cysylltu â'ch gwleidydd lleol a gofyn beth sy'n cael ei wneud i gynnal a gwella bioamrywiaeth neu weld beth all eich gweithle ei wneud i helpu.
- cael eich ysbrydoli gan natur – os ydych chi'n ysgrifennu, yn darlunio, yn pwytho neu'n peintio – archwiliwch sut gall eich amgylchedd lleol ysgogi'ch creadigrwydd.

Mae llawer o wybodaeth ar gael i'ch helpu chi.



2.6 Darparwyr twristiaeth

Mae twristiaeth yn rhan bwysig o economi Sir Gaerfyrddin – mae ein hamgylchedd naturiol yn atyniad arwyddocaol i ymwelwyr. Mae gan lawer o'r atyniadau twristaidd fywyd gwyllt yn greiddiol iddynt eisoes, e.e. Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir, Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru a Pharc Dinefwr a rhoddant gyfleoedd gwych i bobl gael profiad a dysgu mwy am fioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin.

Mae gan ddarparwyr llety botensial arbennig i godi ymwybyddiaeth a rheoli ardaloedd ar gyfer bywyd

gwyllt. Mae yna lawer o sefydliadau gwely a brecwast mewn ardaloedd gwledig sy'n amlygu ac yn hyrwyddo'r potensial i gerdded ac am weithgareddau awyr agored ond mae potensial i ddarparu ar gyfer ymwelwyr a chael gwybodaeth ganddynt am ein bioamrywiaeth. Er enghraifft, mae llawer o ymwelwyr yn bysgotwyr brwd, yn wylwyr adar neu'n bobl sy'n frwd dros fywyd gwyllt yn gyffredinol a gallai darparwyr llety fod yn ffordd o gasglu cofnodion i'w trosglwyddo i'r ganolfan cofnodion biolegol lleol neu'n ffordd o hyrwyddo cynlluniau cofnodi wedi'u targedu'n lleol.



R. Pryce

Hwyrach fod gan barciau carafannau ardaloedd a allai gael eu rheoli neu'u gwella ar gyfer bywyd gwyllt fel rhan o gynllun rheoli ar gyfer y safle cyfan. Gallai fod cyfleoedd am weithgareddau bywyd gwyllt ar safle trwy gynnal nosweithiau ystlumod neu wyfynod a gweithgareddau priodol i blant.

2.7 Sut gallwch helpu - syniadau i weithredu arnynt

Nid rhestr gynhwysfawr o awgrymiadau neu gysylltiadau â gwefannau mo hon ond bwriedir iddi ysgogi syniadau a dechrau trafodaeth...

Darganfod

- Darganfyddwch beth sydd ar eich safle/yn eich ardal – gwnewch archwiliad ‘ecolegol’ o’ch tir/adeiladau a fydd yn eich helpu i ddynodi’r ardaloedd diddorol ac yn helpu i ddynodi cyfleoedd ar gyfer gwelliant/rheolaeth.
- Darganfyddwch pa rywogaethau/cynefinoedd sydd gennych yno. Gallwch droi at ystod o wybodaeth ar-lein ac o’ch canolfan cofnodion biolegol lleol a thîm cadwraeth yr awdurdod lleol.
- Defnyddiwch ffotograffau o’r awyr/mapiau Arolwg Ordnans neu ar-lein i fapio’r ardal – gallai ddweud pethau diddorol i chi am eich tir
- Darganfyddwch o hen fapiau beth oedd yn arfer bod ar eich tir a beth allai’r nodweddion hanesyddol neu archeolegol pwysig fod. Mae mapiau degwm yn ddefnyddiol (oddeutu 1840au). Gallant ddangos i chi ble arferai hen goetiroedd, dolydd, pyllau a gwrychoedd fod ac arwain prosiect adfer i’r dyfodol.

- Cofnodwch beth sydd yn eich ardal ac anfonwch y cofnodion at Ganolfan Gwybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru – maen nhw am glywed y cyfan am fywyd gwylt yn y sir er mwyn i gofnodion rhywogaethau cyffredin fod cyn bwysiced â’r rhywogaethau prinnach.

- Mae llawer o wybodaeth ar-lein i helpu gyda chofnodi ac mae nifer o gynlluniau cofnodi wedi’u targedu yn cael eu cynnal bob blwyddyn ar gyfer ystod o rywogaethau, e.e. Gwyllo Adar Gardd (Big Garden Bird Watch) yr RSPB (gweler tabl gweithredu rhywogaethau)

- Allech chi ddefnyddio camera bywyd gwylt? O’i osod yn ofalus, gallai ddatgelu ymwelwyr diddorol!



<http://aderyn.lercwales.org.uk/>

<http://lle.gov.wales/home?lang=cy>

<http://www.carmarthenshire.gov.uk/biodiversity>

<https://www.ispotnature.org/>

<https://www.wwbic.org.uk/>

<https://nbn.org.uk/>

<https://www.biodiversitywales.org.uk/Cymryd-rhan>



Cymryd rhan

- Gallai fod gan ddatblygiadau newydd ardaloedd wedi’u clustnodi i’w tirlunio neu ardaloedd sy’n annhebygol o fod yn agored i’w datblygu ond lle gellir gwella bioamrywiaeth. Os ydych chi’n cyflwyno cais cynllunio, meddyliwch ynghylch pa gynefinoedd ellid eu cadw a pha ardaloedd allai gael eu gwella fel rhan o’r datblygiad.

<https://www.sirgar.llyw.cymru/media/121289/cadwraeth-natur-a-bioamrywiaeth.pdf>

- Allwch chi roi sylwadau ar geisiadau cynllunio er mwyn amlygu ardaloedd pwysig ar gyfer bioamrywiaeth i’w hystyried fel rhan o’r broses gynllunio?

<https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/cynllunio/cyflwyno-sylwadau-ar-gais-cynllunio/#.XiV-SWj7TIU>



Rheoli

- Allwch chi nodi o'ch archwiliad ardal/ardaloedd a allai gael ei/eu rheoli ar gyfer bywyd gwylt yn y tir/adeiladau a reolwch? Gallai fod yn gornel gardd neu'n dir ysgol, yn ardal y tu allan i'ch swyddfa, yn eich gwerysll neu barc lleol – gallai fod yn ardal o laswelltir, prysgwydd, gwrych, grwpiau o goed, pwll neu ardal gorsiog.



- Efallai nad oes gennych ardd ond eich bod yn rheoli darn o dir ar randir. Allwch chi gydweithio i reoli/creu ardaloedd cyfeillgar i fywyd gwylt?

<https://www.nsalg.org.uk/>

- Defnyddiwch arbenigedd y Partneriaethau Natur Lleol a'r sefydliadau ynddynt: gallant helpu i roi cyngor ar ba gamau allech chi eu cymryd ar eich safle.

https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/cynllunio/bioamrywiaeth/#.XiV_Lmj7TIU

- Os ydy'r ardal yn fawr, ystyriwch ysgrifennu cynllun rheoli syml. Gallai hyn fod ar gyfer safle cyfan: parc, tir ysgol, parc busnes neu gynefin penodol yn yr ardal honno (e.e. dôl neu goetir). Nid oes angen i'r rhain fod yn gymhleth ond dylent fynd i'r afael â'r cwestiynau canlynol?

- Beth yw nod eich cynllun?
- Beth sydd gennych? Defnyddiwch eich archwiliad a dynodi beth arall sydd angen i chi ei wybod.
- Beth yw'ch blaenoriaethau ar gyfer gweithredu? Beth yw'r cyfyngiadau a'r cyfleoedd?
- Beth mae'n rhaid i chi ei wneud? Pa gamau allwch chi eu cymryd i gynnal neu wella'r hyn sydd yno? Allwch chi greu cysylltiadau rhwng cynefinoedd presennol a helpu gwella/creu rhwydwaith o gynefinoedd? Allwch chi greu nodweddion newydd – gweler isod.



<http://www.troopers-hill.org.uk/plan.htm>

Allwch chi wirfoddoli gyda'r cyngor cymuned/awdurdod lleol i reoli ardaloedd o barciau neu lle agored cyhoeddus ar gyfer bywyd gwylt?



Allwch chi weithio gyda'r eglwys neu'r capel lleol i reoli ardaloedd o'r fynwent ar gyfer bywyd gwylt?

<https://www.caringforgodsacre.org.uk/>

Allwch chi wneud cais am gyllid grant i ymgymryd â phrosiect? I gymunedau, mae nifer o gynlluniau grant bach y gallech eu defnyddio i helpu gyda'ch prosiect.



Diogelu

Ymunwch â grŵp lleol; os ydych chi'n fusnes, ystyriwch noddi prosiect bywyd gwyllt lleol. Os ydych chi'n fusnes gyda staff, ystyriwch gymryd rhan trwy wirfoddoli ar brosiect bywyd gwyllt cymunedol. Mae'n wych at ddibenion adeiladu tîm!

<http://www.businessandbiodiversity.org/credits.html>

<https://bit.ly/2xxinqM>

Ystyriwch pa effaith allech chi ei chael ar yr amgylchedd trwy'r cynhyrchion/deunyddiau a ddefnyddiwch: pa gemegion cartref ydych chi'n eu defnyddio ac o ble maen nhw'n dod? Oes unrhyw gynhyrchion eraill a allai gael llai o effaith ar yr amgylchedd?



Ewch yn ddi-fawn – defnyddiwch rywbeth arall a helpu i achub ein cynefinoedd mawnog gwerthfawr.

<https://bit.ly/2xCvZBh>

<https://bit.ly/2VwGCxw>

Osgowch ddefnyddio plaladdwyr, chwynladdwyr, gwrteithiau oni fod gwir angen

<https://bit.ly/3bfdEJ8>

Crëwch

Ceisiwch greu mosäig neu glytwaith o gynefinoedd. Peidiwch â rheoli o reidrwydd ar gyfer un rhywogaeth neu gynefin yn unig. Edrychwch ar nodweddion naturiol eich tir a chynorthwyo'r hyn sydd yno eisoes yn hytrach na cheisio greu rhywbeth newydd na fyddai'n digwydd yn naturiol. Er enghraifft, peidiwch â draenio darn da o dir i blannu coetir, na chreu gwlyptir lle mae eisiau bod yn sych.

Crëwch eich gardd bywyd gwyllt eich hun neu helpwch i greu un gymunedol

<https://bit.ly/3abBsfG>

Allwch chi blannu perllan?

<https://bit.ly/3eGyjaV>

Allwch chi greu pwll bywyd gwyllt (cofiwch efallai bod angen caniatâd cynllunio arnoch chi)

<https://bit.ly/2VejeGb>

Oes cyfleoedd i godi blychau ystlumod ac adar neu i adeiladu gwesty trychfilod?

<https://bit.ly/2xCz9oq>

<https://bit.ly/2Vdo8mJ>

<https://bit.ly/3csi8fH>

Beth am fod yn 'gymuned Gyfeillgar i Wenyn' a gwneud Cymru'n wlad gyfeillgar i bryfed peillio trwy weithredu fel rhan o gynllun Llywodraeth Cymru!

<https://bit.ly/2K9gKCD>

<https://bit.ly/2xyYJuF>

"ceisiwch greu mosäig neu glytwaith o gynefinoedd"



Mathau o gamau – cynefinoedd:



Glaswelltir

Mae ymchwil yn dangos bod yr amllder o flodau a phryfed sy'n ymweld â blodau'n cynyddu'n sylweddol yn sgil llai o dorri glaswellt, sy'n helpu'r pryfed peillio. Beth am arbrofi gyda'r gyfundrefn lladd gwair a'i hamrywio mewn gwahanol ardaloedd a gweld beth sy'n gweithio orau i bryfed peillio – ac i bobl. Y peth hawsaf y gallwch chi ei wneud yw dynodi a gwella ardaloedd presennol sydd â'r potensial i fod yn dda i bryfed peillio – fel bwyd neu gysgod. Yn aml iawn, dyma sydd fwyaf cost effeithiol hefyd.

O ran lawntydd ac ardaloedd amwynder, ceisiwch dorri rhai ardaloedd yn llai aml a thorri'n uwch er mwyn caniatáu i blanhigion flodeuo. Dylai cylchdro hwy ar gyfer torri glaswellt gyda llafn y torrwr wedi'i osod i isafswm o 60–70mm ganiatáu i rywogaethau sy'n tyfu'n isel fel llygad y dydd, meillion, meillion hopysaidd a meddyges las i flodeuo oherwydd gallant gadw eu pennau o dan y torrwr neu gael amser i dyfu a blodeuo eto. Bydd glaswellt yn tyfu ar wahanol gyfraddau yn dibynnu ar y tywydd yn ystod y tymor tyfu ond beth am oedi'ch toriad cyntaf tan ganol mis Ebrill ac yna torri bob 5-8 wythnos a gweld beth fydd yn digwydd. Defnyddiwch arwyddion mewn ardaloedd cymunedol i esbonio'ch rheswm am wneud hyn.

<https://bit.ly/3csiyCN>

<https://bit.ly/3enDtsm>

Allwch chi gasglu'r toriadau? Bydd hyn yn helpu i annog mwy o blanhigion blodeuo yn y glaswellt. Os na all eich peiriant torri eu casglu, yna gellir eu rhacanu mewn ardaloedd llai o faint i greu pentwr i gynefinoedd neu domen gompostio?

<https://bit.ly/2RJmXsV>

Oes yna rai ardaloedd o laswelltir lle gallwch adael i'r glaswellt dyfu'n hir a'i reoli fel gweirglodd? Yn ddelfrydol, byddech yn torri'r glaswellt ar ddiwedd yr haf ac yn codi'r deunydd a dorrwyd, gan helpu gwneud y glaswelltir yn fwy blodeuog. Mae yna gontractwyr lleol a allai ymgymryd â'r gwaith hwn ar ardaloedd mwy o faint neu efallai gallai ffermwr lleol ei dorri a'i fyrnu at ddefnydd gwair?



Mewn rhai ardaloedd, hwyrach y dymunwch hau cymysgedd o hadau sydd o fantais i bryfed peillio. Dewiswch yr ardaloedd hyn yn ofalus. Hwyrach y byddai'n well rheoli'r cynefin sydd yno eisoes er mwyn annog y blodau sydd yno'n barod. Dewiswch eich cymysgedd o hadau'n ofalus hefyd - sicrhewch fod yr had neu'r planhigion a gyflwynir gennych yn frodorol, ac os oes modd o ffynhonnell leol.

<https://bit.ly/3cpkWKw>

<https://bit.ly/2yIMGke>

Oes gennych eisoes ddôl frodorol yr hoffech ei rheoli?

<https://carmarthenshiremeadows.com>

<https://bit.ly/2ygtkNI>



Coetiroedd a choed

Efallai'ch bod yn ddigon lwcus i fod ym meddiant neu'n berchen ar ardal o goetir mewn ardal gymunedol. Mae llawer o goetiroedd bach yn cael eu hesgeuluso ond dylid eu gwerthfawrogi am y manteision y gallant esgor arnynt, i fywyd gwyllt a phobl. Gyda rheolaeth briodol, gallant fod yn gynefinoedd gwerthfawr, creu cyflogaeth a chwarae eu rhan mewn newid hinsawdd.

<https://bit.ly/2ynl3rm>

<https://bit.ly/34HHTWC>

<https://smallwoods.org.uk/>

<https://bit.ly/2Vg9viC>

Allwch chi blannu mwy o goed? Os na ddefnyddir ardaloedd glaswelltlog yn gyson ac nad ydynt yn gyfoethog mewn rhywogaethau'n barod (gwiriwch cyn plannu), yna beth am roi cynnig ar rywbeth arall – gallai arbed arian yn y tymor hir. Gall plannu coed a phrysgwydd fel helyg, y ddraenen ddu, afalau bach surion a'r fedwen ddarparu symiau sylweddol o baill a neithdar ar ddechrau'r gwanwyn.



Os oes rhaid i chi gwympo coeden – plannwch ddwy yn ei lle! Os byddwch yn plannu coed, plannwch rywogaethau brodorol sy'n gyffredin i'ch ardal leol. Ar y cyfan, maen nhw'n llawer gwell i'ch bywyd gwyllt lleol yn y tymor hir. Gadewch rywfaint o bren marw ar y safle ac adeiladu tomen gynefinoedd gyda phren y gangen.

<https://bit.ly/3erl0LG>



Gwrychoedd

Mae gwrychoedd yn hollbwysig gan eu bod yn darparu bwyd a chysgod i sawl rhywogaeth, gan gynnwys y rhai sy'n defnyddio perthi i symud o gwmpas. Maen nhw'n gynefinoedd pwysig i adar nythu hefyd, ac i'r pathew prin mewn rhai ardaloedd o Sir Gaerfyrddin.

Oes cyfle i blannu/adfer gwrych – yn enwedig pan fyddant yn cysylltu cynefinoedd presennol â'i gilydd?

<https://bit.ly/2XFj781>

Yn ddelfrydol, dylid rheoli gwrychoedd yn ystod misoedd y gaeaf, gan osgoi tymor nythu'r adar (Mawrth i Awst).

Oes rhaid i chi dorri'r holl berthi bob blwyddyn? Bydd adar a phryfed yn elwa ar dorri gwrychoedd yn llai aml a dylai'r dull hwn fod yn rhatach hefyd.

Lluniwch gynllun rheoli gwrychoedd ar gyfer eich tir.

<https://bit.ly/3bcWhbK>

Allwch chi blygu eich perthi? Mae'r math hwn o reolaeth yn helpu i gynnal ffiniau da ac yn galluogi blodau ac aeron i ffurfio.


<https://www.hedgelaying.org.uk/>



Prysgwydd

Mae prysgwydd yn gynefin hynod werthfawr ac yn un y mae llawer o rywogaethau'n dibynnu arno i oroesi. Mae croeso i'r cynefin fel rhan o fosäig o gynefinoedd neu yng nghornel ardal. Fodd bynnag, os na chaiff ei reoli, gall gymryd dros ardaloedd fel glaswelltir yn gyflym, felly hwyrach y bydd angen rheolaeth.

<https://bit.ly/3bfml0r>



Ardaloedd ffurfiol

Efallai y bydd gennych ardaloedd ffurfiol yr hoffech eu cynnal ond mae cyfleoedd o hyd i helpu'r foamrywiaeth yma.

- Gwelyau/cynwysyddion blodau neu fasedi crog – cynhwyswch rywogaethau o lwyni sy'n gyfeillgar i bryfed peillio, planhigion blynyddol neu luosflwydd er mwyn darparu bwyd i bryfed peillio o'r gwanwyn i'r hydref.
- Defnyddiwch lwyni sy'n tyfu blodau a ffrwythau sy'n darparu ffynonellau bwyd i adar ac anifeiliaid
- Lleihewch faint o waith trimio dwys sydd angen ei wneud ar lwyni, gan alluogi llwyni o wahanol uchderau i ddatblygu
- Cadwch bennau hadau marw ac ysgerbydau planhigion marw, gan eu gadael i sefyll dros y gaeaf ar gyfer adar sy'n bwyta hadau ac anifeiliaid di-asgwrn-cefn y gaeaf i gysgodi a'u strimio ar ddiwedd y gaeaf neu yn y gwanwyn





Cofiwch

Cr wch **domenni cynefinoedd** – mae pren marw’n dda!

<https://bit.ly/3cmQKj1>

Nid yw ‘taclusrwydd’ yn flaenoriaeth i brosiectau bioamrywiaeth – weithiau gall gadael i ardal fach fynd yn wyllt fod o fantais!



Rhywogaethau goresgynnol – mae’n anghyfreithlon caniat u i glymog Japan neu Jac y Neidiwr i ledu – allwch chi gymryd camau i fynd i’r afael   nhw?

Mae mwyfwy o rywogaethau dyfrol goresgynnol yn mynd yn broblem mewn rhannau o Sir Gaerfyrddin - gall rhywogaethau fel Pluen Parot foddï pwl a dylid cymryd gofal i beidio  ’u cyflwyno i gorff o dd r.

<https://bit.ly/3adsVZD>

Gall **anifeiliaid anwes** gael effaith ar fywyd gwyllt lleol os na ofalir amdanynt. Gall **c wn** sy’n rhydd i grwydro ymyrryd ar adar sy’n nythu ar y ddaear neu ar heidiau o adar (e.e. adar gwlyptir sy’n gaeafu). Gallant ymosod ar ddraenogod hefyd.

Bydd **cathod domestig** yn lladd bywyd gwyllt ond er gwaetha’r niferoedd mawr o adar a leddir gan gathod yn yr ardd, nid oes tystiolaeth wyddonol glir fod hyn yn achosi gostyngiad yn y poblogaethau adar. Fodd bynnag, mae gerddi’n bwysig i adar bridio felly byddai’n ddoeth ceisio lleihau nifer yr adar a gaiff eu lladd gan gathod trwy osgoi rhoi bwyd ar y llawr ac/neu roi cloch ar goler eich cath.

<https://bbc.in/2wGuvFw>

<https://bit.ly/3clj9pJ>

<https://bit.ly/3abGgBt>

<https://bit.ly/2VDc2Ca>

Sbwriel – yn anffodus, bywyd gwyllt yw un o’r prif ddiodefwr o ran sbwriel pobl yn yr amgylchedd – yn enwedig adar gwyllt a mamaliaid bach. Rhoddir cyhoeddusrwydd da i hyn heddiw – yn enwedig yr effeithiau ar amgylchedd y m r.

<https://bit.ly/2VCHgZ>

<https://bit.ly/3ctQsal>

<https://bit.ly/2z6Kvlb>



Gweithredu dros Rywogaethau

| | |
|---|--|
| Blog ffyngau Sir Gaerfyrddin | http://www.carmarthenshirefungi.co.uk/ |
| Clwb Adar Sir Gaerfyrddin | https://carmarthenshirebird.club/ |
| Ieir Bach yr Haf a Gwyfynod | http://www.carmarthenshiremoths.co.uk/ |
| Gwarchod Glöynnod Byw | https://butterfly-conservation.org/in-your-area/wales- |
| Partneriaeth Gwiwerod Coch Canolbarth Cymru | https://midwalesredsquirrels.org/ |
| Planhigion | https://www.plantlife.org.uk/uk https://bsbi.org/ |
| Draenogod | https://www.hedgehogstreet.org/ |
| Ystumod | https://www.bats.org.uk/ |
| Amffibiaid ac Ymlusgiaid | https://www.arc-trust.org/ |
| Pathewod | http://www.wtwales.org/species/hazel-dormouse |
| Cacwn | https://www.bumblebeeconservation.org/ |
| Anifeiliaid di-asgwrn-cefn - cyffredinol | https://www.buglife.org.uk/ |
| Gwenoliaid | https://www.swift-conservation.org/ |
| Tylluanod gwynion | https://www.barnowltrust.org.uk/ |
| Rhywogaethau Estron Goresgynnol | http://www.nonnativespecies.org/home/index.cfm |
| Adar | https://www.rspb.org.uk/ |

